

15. Dim Ond ... y Dechrau

CYMERIADAU

- HEROD
- CYNGHORWR 1, 2 a 3
- LLETYWR
- GWRAIG Y LLETY
- DINESYDD 1, 2, 3 a 4

GOLYGFA 1

DARLLENIAD: Eseia 9:6–9.

Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.

[*Daw'r DINASYDDION i mewn o wahanol gyfeiriadau a chyfarch ei gilydd*]

DINESYDD 1: Maen nhw'n deud fod y sêr yn dangos fod y Meseia wedi'i eni.

DINESYDD 2: Ydyn – a da o beth hefyd. Mae'r Iddewon wedi blino cael eu rheoli gan y Rhufeiniaid. Tydi hyn ddim yn rhyddid.

DINESYDD 3: Os caiff y Meseia ei eni yn ystod ein dyddiau ni, fe gawn ni weld pethau mawr yn digwydd.

[*Pawb yn cytuno*]

DINESYDD 3: [*Yn parhau*] Dwi ond yn gweddïo i Dduw y cawn weld y diwrnod y caiff ein gwaredwr ei eni.

DINESYDD 1: A finnau.

DINESYDD 4: Dychmygwch! Mae Duw wedi addo rhywun i'n rhyddhau. Mae hynny'n golygu rhyfelwr o fri.

DINESYDD 2: I'n harwain i frwydr a hawlio'i le yn frenin. Fedra i ei weld o rŵan!

DINESYDD 1: [*Yn bwyllog*] Mm. Gobeithio y gwelwch ef felly. Os caiff y Meseia ei eni yn awr fe fydd yn rhaid aros yn hirach am ein rhyddid.

DINESYDD 3: Gwir. Ac yn y cyfamser, mae'n rhaid cario 'mlaen â'n gwaith. Wnaiff y tir ddim trin ei hun tra'n bod ni'n ceisio proffwydo ein dyfodol.

DINESYDD 4: Ond un peth sy'n sicr. Lle bynnag y caiff y Meseia ei eni, fe gawn ni wybod

amdano'n syth. Ddaw 'na w'r mawr ddim i'r byd 'ma'n ddisylw.

DINESYDD 2: Felly, fe gadwn ein llygaid a'n clustiau ar agor, ond yn awr – gwaith!

[Mae DINASYDDION 1, 2 a 3 yn cerdded i ffwrdd. Mae DINESYDD 4 yn sefyll ar ei ben ei hun, yn ddistaw am ychydig]

DINESYDD 4: Dwi wedi blino byw fel hyn. Mae'n hen bryd i'r Meseia ddod. Ond rwy'n ifanc – fe gaf ei ddilyn eto a bod yn rhan o'i fyddin.

[Cerdded allan yn benderfynol]

DARLLENIAD: Luc 1:16–23

GOLYGFA 2

Yn y cefndir, mae tablo o MAIR, JOSEFF a'r baban Iesu.

Daw GWRAIG Y LLETY i du blaen y llwyfan yn edrych yn gythryblus.

LLETYWR: Am ddiwrnod! Mae'r cyfrifiad yma'n saff o fod wedi dod â busnes da ond mae 'na waith caled yn ei sgil hefyd. Dim ond cloi a noswyllo sydd angen rŵan – diolch byth.

GWRAIG: Mae baban wedi'i eni yn y stabl.

LLETYWR: I bwy? I'r ddau yna o Nasareth a ddaeth ar gyfer y cyfrifiad?

GWRAIG: Ia, dyna ti. Mae'n rhaid bod y daith wedi bod yn ormod iddi. Doeddwn i ddim yn hoffi ei golwg hi o'r cychwyn.

LLETYWR: O wel! [*Gan godi*] Mae babanod wedi'u geni mewn gwaeth llefydd na stablau. Mae 'na ddigon o wair sych ac mae wedi'i chysgodi rhag y gwynt.

GWRAIG: Yndi. Ond ... [*petruso*], mae'r baban yma'n ... wahanol rywsut.

LLETYWR: Gwahanol?

GWRAIG: [*Yn feddylgar*] Mab bach ydy o. Roedd y fam yn gwybod hynny cyn iddo gael ei eni. Fe ddeudodd iddi gael neges o'r nefoedd ac y dylai alw'r baban yn Iesu.

LLETYWR: Mae hi'n swnio'n wael!

GWRAIG: Na, nid dyna ydy o. Roedd hi'n gwybod. Ond mae 'na fwy! Daeth bugeiliaid i'w weld – a'i alw'n Feseia!

LLETYWR: [*Yn syn*] Mae'r dref yn llawn o sibrydion am sêr a Meseia. Sut all hwn fod yn wahanol i'r lleill?

GWRAIG: Ond roedden nhw wirioneddol yn ei addoli. Yn deud fod angel wedi ymweld â

nhw – efallai mai'r mab yma ydy'r Meseia. Efallai mai ef ydy'r un y buon ni yn ei ddisgwyl.

LLETYWR: [*Yn garedig*] Ond Nasaread? Wedi'i eni yn ein stabl yng nghanol yr anifeiliaid. Mae'n anodd credu'r peth!

GWRAIG: [*Yn syml*] Rwy'n credu.

LLETYWR: Yna, fe wnawn ni bopeth allwn ni i'w wneud yn fwy clyd. Ond paid â bod yn rhy siomedig os mai dim ond stori arall fydd hon.

[*Allan gyda'i gilydd*]

GOLYGFA 3

DARLLENIAD Luc 2:1-7.

[*Gellir cael tablo o olygfa'r geni yn gefndir gyda'r digwyddiadau yn digwydd o'i flaen ond heb fod yn ymwybodol ohono*]

DINESYDD 1: Maen nhw'n deud fod y Meseia wedi'i eni. Mae llawer o bobl yn deud fod hyd yn oed brenhinoedd wedi'i addoli.

DINESYDD 2: [*Yn amharchus*] Ond lle? Lle maen nhw'n deud ei fod ef wedi'i eni? Mewn stabl! Dyna le! Brenin wedi'i eni mewn stabl. Faswn i'n synnu dim clywed mai rhyw fath o dric gan y Rhufeiniaid ydy hyn.

DINESYDD 3: Rydyn ni wedi credu erioed y byddai ein Meseia'n cael ei eni'n frenin rhyfelgar, ond pwy a ŵyr? Byddai pawb yn cytuno fod yr Arglwydd yn gweithio mewn ffyrdd dirgel. Sut wyddon ni nad hwn ydy'r Meseia?

DINESYDD 1: Ond, mab i saer o Nasareth! Damwain ydy'r ffaith iddo gael ei eni ym Methlehem – ei rieni wedi dod yma i dalu trethi. Na, nid hwn ydy'r Meseia – choelia i ddim. [*Mynd allan*]

DINESYDD 4: Aros funud! Efallai mai hwn ydy'r Meseia wedi'r cyfan. Fedrwn ni ddim anobeithio rŵan. Mae wedi'i ysgrifennu yn y sêr – fod ein brenin wedi'i eni. Os mai'r baban yma, sydd wedi'i eni mewn stabl, ydy ein brenin ni, yna dwi'n mynd i'w wasanaethu.

DINESYDD 2: [*Yn bwyllog*] Efallai bod yr Arglwydd Dduw yn profi ein ffydd. Efallai mai'r baban yma ydy'r un y buon ni'n disgwyl amdano.

DINESYDD 1: [*I'w weld yn aros am funud ac yna'n penderfynu'n bendant*] Na, na! Fedra i ddim credu'r peth! Fyddai Duw byth yn caniatáu i'n gwardedwr gael ei eni yn y fath le. Mae o'n Dduw rhagorol. Fo ydy Arglwydd yr holl fyd! Fe fydd ein gwardedwr yr un fath. Wna i ddim dilyn mab i saer!

[*Allan*]

DINESYDD 3: Mae llawer o wirionedd yn hynny. Ond rywsut ... [*troi i ffwrdd*] ... fe fues i'n siarad â ffrind sy'n fugail. Roedd o wedi bod yno ac yn deud fod awyrgylch arbennig o'i amgylch – teimlad o dangnefedd o'i gwmpas ... rwy'n ei gredu. Roedd ei lygaid yn disgleirio wrth iddo siarad. Roedd yn teimlo fel petai wedi cyfarfod â'r Arglwydd Dduw ei hun.

[*Mae'r DINASYDDION yn sefyll yn edrych ar ei gilydd am ychydig ac yna'n cerdded yn synfyfyriol oddi ar y llwyfan*]

DARLLENIAD: Luc 2:8–20

GOLYGFA 4

Mae'r olygfa yma ym mhalas HEROD Frenin. Mae'r brenin yn edrych yn flin ac yn boenus. Y mae tri CHYNGHORWR yn ceisio tawelu'r brenin. Y mae morynion yn gweini arno.

HEROD: Felly, mae brenin wedi'i eni oes? Brenin Brenhinoedd! Pwy glywodd am y fath deitl? Sut feiddian nhw ddeud 'mod i'n mynd i gael fy nymchwel? A chan faban cyffredin. [*Yn wawdlyd*] Mae'n rhaid mai gwerinwr ydy'r baban yma. Chlywais i 'rioed am frenhinoedd mawr yn cael eu geni mewn teyrnasoedd eraill.

CYNGHORWR 1: [*Gan ymgrymu*] Eich Mawrhydi. Rwy'n siŵr eich bod yn iawn. Does dim angen i chi boeni dim. All plentyn fyth fod yn fygythiad i'ch teyrnasiad chi.

CYNGHORWR 2: [*Mewn ymgais i seboni*] Mae'ch brenhiniaeth yn ddwyfol, eich Mawrhydi. Byddwch yn byw am byth ac yn frenin uwchlaw pob brenin.

[*Mae HEROD yn troi atynt*]

HEROD: Felly, tydych chi ddim yn meddwl bod unrhyw ddrwg wedi'i wneud! Be am y malais? Be am wynebau gwawdlyd fy ngelynion? Dim drwg wedi'i wneud! A gwŷr doeth o'r dwyrain wedi dod i'w addoli! [*Saib*] A heb ddychwelyd yma. Wn i ddim yn iawn lle mae o.

CYNGHORWR 1: Rwy'n siŵr nad oes gennych chi unrhyw beth i'w ofni.

HEROD: [*Yn dawel ond yn greulon*]. Ofni? Na, fydda i ddim yn ofnus! Fydd dim i boeni yn ei gylch – gan y bydd y bachgen yma'n marw!

[*Mae'r CYNGHORWYR yn edrych ar ei gilydd yn bryderus*]

CYNGHORWR 1: Ond, syr. Be os mai'r baban yma ydy'r brenin mawr y mae'r Iddewon yn disgwyl amdano? Fe glywais fod gan eu Duw allu rhyfeddol. A fyddai'n ddoeth herio un y mae cymaint wedi ysgrifennu amdano ac un sydd â gweithredoedd mor bwerus? Os mai'r baban yma ydy'r un a gafodd ei ddewis gan eu Duw, ac os oes gan eu Duw y gallu y maen nhw'n deud sydd ganddo, [*tawelu yn sydyn wrth weld wyneb HEROD a gorffen yn ddisymwth*] ... efallai na fyddai'n syniad da.

HEROD: *[Petruso am eiliad]* Wrth gwrs nad fo ydy'r un a ddewiswyd. Hanes gan yr Iddewon ydy hyn er mwyn gallu cyfiawnhau eu proffwydoliaethau ffôl. *[Troï at y 3ydd CYNGHORWR]* A ydych chi'n amau fy ngorchmynion? Ewch o fy ngolwg i! Mae'n rhaid i'r brenin yma farw!

CYNGHORWR 1: Ond sut ydan ni i wybod pwy ydy'r plentyn hwn? Does 'na neb wedi deud wrthon ni.

HEROD: Na, does neb wedi deud wrthon ni. Rydych chi'n iawn. Does 'na ddim un ffordd o wybod pwy ydy'r bachgen hwn. Felly, mae'n rhaid bod yn berffaith siŵr cyn cael gwared ohono. Dyma fy ngorchmynion – gwrandewch yn ofalus. *[Mae'r CYNGHORWYR yn nesu ato]* Mae angen lladd pob plentyn o dan ddwy oed yn yr ardal o gwmpas y lle yr aeth y gwŷr doeth – yn syth. *[CYNGHORWYR yn camu'n ôl wedi eu brawychu]* Mae'n rhaid canfod pob un. Fe fydd y rhieni yn siŵr o geisio cuddio eu plant. Dywedwch wrth y milwyr am gychwyn ar y dasg yn syth.

[Mae'r CYNGHORWYR yn syfrdan. Mae un yn symud ymlaen wedi dychryn]

CYNGHORWR 1: Ond, syr. Os ga i ddeud ...

HEROD: Chewch chi ddim! Dosbarthwch y gorchmynion ar unwaith. Ewch.

[Mae'r CYNGHORWYR yn mynd allan. Mae HEROD yn edrych yn ofnus ac yna yn mynd allan â'i weision yn ei ddilyn]

DARLLENIAD: Mathew 2:13–18

GOLYGFA 5

Mae'r olygfa'n syml. Yn y cefndir, gellir cael croes wag neu dablo o alarwyr. Mae'r DINASYDDION yn dod at ei gilydd – mewn oed yn awr ac yn drist. Mae un ar goll.

DINESYDD 2: Felly, mae o wedi marw. Yr un oedd i fod i'n harwain i fuddugoliaeth, ein Meseia, wedi marw.

DINESYDD 3: Mae'n anodd credu y gallai fod wedi marw. Mae o wedi gneud cymaint ac roedd ei glywed yn siarad fel clywed llais o'r nefoedd.

DINESYDD 4: Ac eto, mae o'n farw. Ac yn y fath fodd – ei osod ar groesbren i farw.

DINESYDD 2: Fe fyddai'n well pe bai wedi'i ladd yn blentyn gan fod cymaint o ladd wedi bod yr amser hynny.

DINESYDD 3: Ie, yr holl ladd. A fyddai o wedi bod yn well pe bai wedi marw? Mae ei fywyd wedi rhoi ysbrydoliaeth i lawer. Rwy'n nabod dynion sy'n barod i'w ddilyn hyd yn oed rŵan ... wnaethon ni erioed feddwl y byddai'n marw. Hyd yn oed gyda'r hoelion wedi'u dyrnu i'w gorff, roedd llawer yn disgwyl iddo ddod lawr o'r groes. Ond mae o'n farw.

DINESYDD 2: Felly, pa les sydd i hynny? Fo oedd y Meseia ac mae o'n farw. Tydi o ddim wedi gorchfygu ein gelynion; nhw wnaeth ei orchfygu o.

DINESYDD 3: Wedi'i orchfygu? Na dwi ddim yn meddwl. Rwy'n credu ei fod wedi ei anfon gan Dduw. Tydw i ddim yn gwybod mwy am ei farwolaeth na chithau ond mae ei ddilynwyr yn deud ei fod ef ei hun yn gwybod y byddai'n digwydd. Efallai y cawn weld ryw bryd eto a oedd pwrpas i'w farwolaeth. Ac fe glywais i o'n siarad. Wna i ddim anghofio hynny. Roedd yn siarad fel proffwyd addysgedig ond doedd ganddo ddim eiddo gwych, na gwisgoedd crand.

DINESYDD 4: Roedd i'w weld yn aml gyda phobl fel ni. Cafodd bryd o fwyd hyd yn oed efo casglwr trethi.

DINESYDD 3: Ac wedyn, newidiodd y dyn hwnnw y tu hwnt i bob adnabyddiaeth! Bellach, mae e'n onest, yn boblogaidd ac yn cael ei barchu gan bawb sy'n gweld y newid ynddo fo ... Roedd rhywbeth ynglŷn â'r dyn hwnnw. Roedd ganddo awdurdod. Roedd fel petai Duw ei hun yn siarad. Mae ei farwolaeth mor drist. Roedd llawer wedi gobeithio y byddai'n dod â gogoniant i'r Iddewon.

DINESYDD 2: Ond rŵan, mae o'n farw. [*Codi'i ysgwyddau ond yn parhau'n llawen*] Chawn ni fyth wybod! Does dim gwerth poeni am rywbeth na chaiff ei ddatrys. Mae llawer o broblemau fel hyn yn bod.

DINESYDD 3: [*Yn drist*] Rydych chi'n iawn. Chawn ni fyth wybod ... ac eto, rwy'n credu mai dim ond dechrau ydy hyn ...

DARLLENIAD: Marc 16:1-6 Philipiaid 2:5-11

DIWEDD